

# Cyngor Cymuned Y Fali Community Council

---

Clerc / Clerk Gwenda Owen [gwenda.owen1@ntlworld.com](mailto:gwenda.owen1@ntlworld.com)  
Trigfa, Four Mile Bridge, LL65 2EZ (01407 740046)  
<http://www.valleycommunitycouncil.com>

Cofnodion **Cyfarfod y Cyngor / Minutes of the Council Meeting**  
**7.00 y.h. / p.m. Nos Fercher / Wednesday 16.01.13**

## 1. Croeso / Welcome.

2. **Presennol / Present** : Counc. D Walters, (Cadeirydd/Chairman), W Rogerson MBE, M Swaine Williams, G Browne MBE, H Wilson, D Griffiths, N Tuck, S Roberts, MBE, C Torr

**Ymddiheuriadau / Apologies:** Coun/Cyng G O Parry

## 3. Datganiad o ddiddordeb / Declaration of interest

Dim datganiad o ddiddordeb wedi ei dderbyn./No declarations of interest received.

## 4. Cyflwyniad gan Gethin Jones, Arolygydd Dros Dro (Ynys Mon) Heddlu Gogledd Cymru/Presentation by Gethin Jones, Acting Inspector (Anglesey) North Wales Police

Croesawyd Gethin Jones, Arolygydd Dros Dro (Ynys Mon) i'r cyfarfod. Pwrpas yr ymweliad oedd i ymgynghori ynglyn a chau Gorsaf Heddlu'r Fali a chael cefnogaeth aelodau i ymofyn lleoliad arall ble byddai'r PCSO yn gallu cynnal syrjeri yn y pentref dair gwaith yr wythnos. 'Roedd staff oedd wedi ei lleoli ar hyn o bryd yn y Fali yn symud i Gaergybi yn ystod yr wythnos nesaf, gyda'r orsaf bresennol i'w gwerthu a'r arian i gael ei fuddsoddi yng Ngogledd Cymru ond nid yn benodol yn y Fali. Teimlir fod hyn yn ymateb byr dymor, gan na fyddai'r arian a godwyd drwy werthu'r adeilad yn cyflogi ond nifer bychan o plismyn am gyfnod o flwyddyn pan fyddai'r ased, sef yr adeilad, cymunedol wedi ei golli'n gyfangwbl. 'Roedd aelodau o'r farn y gall yr heddlu wneud gwell defnydd o'r adeilad, efallai drwy rentio ystafelloedd, a fyddai'n gwneud yr adeilad yn hunan gynnaladwy yn ariannol.

Mynegodd yr aelodau bryderon yn cynnwys nad pwrpas y cyfarfod oedd i ymgynghori gan fod y penderfyniad i gau yr orsaf eisioes wedi ei wneud. 'Roedd aelodau wedi gwrthwynebu'r cynnig i gau'r orsaf yn gynharach ac yn teimlo er fod yr ystadegau yn dangos mae ychydig o ddefnydd oedd yn cael ei wneud o'r orsaf, fod hyn fwy i wneud gyda'r ffaith nad oedd presenoldeb yr heddlu yno ac fod pwysu'r botwm yn ei rhoi trwodd i Fae Colwyn, felly roedd y gwasanaeth lleol wedi ei golli'n barod. Mynnegwyd pryder hefyd mae ychydig iawn o dystiolaeth weladwy o PCSO oedd yna yn y pentref.

Gan fod y penderfyniad i gau yr orsaf eisioes wedi ei wneud, cynnigodd yr aelodau fod yr heddlu yn cysylltu a'r Eglwys er mwyn gweld os oedd modd cynnal y surjeris yn Neuadd yr Eglwys, efallai run amser a dyddiau'r farchnad, h.y Dydd Sadwrn a Dydd Iau, rhwng 9 yb a 2 yb. Gofynnir hefyd am fwy o bresenoldeb gan y PCSO yn y pentref..

Cytunnod Gethin Jones i farchnata mwy ar rifoedd ffon galwadau brys a galwadau di-frys, sef 999 a 101. Cytunnodd hefyd i adlogu amylder presenoldeb y PCSO yn y pentref.

Gethin Jones, Acting Inspector (Anglesey) was welcomed to the meeting. The purpose of his attendance was to consult on the closure of Valley Police Station and seek the support of the members to locate alternative accommodation for PCSO's to hold surgeries in the village 3 times per week. Staff currently located in Valley were to move to Holyhead within the week, with the station building to be sold. The revenue was to be reinvested in North Wales but not specifically at Valley. It was pointed out that this was an extremely short-sighted approach as the sale of the

building would only fund a small number of PCSO's for a year, whilst the asset, i.e. the building would be lost forever as a valuable community source. It was considered that better use could be made of the building by the police, possibly by renting space out, making the building financially self sustainable.

Members raised a number of concerns including the fact that this meeting was not to consult as the decision to close the station had already been made. Members had already objected to the closure of the station and felt that statistics showing the usage was low was due more to the fact that the station was rarely manned and that pressing the button allowed visitors to communicate only with Colwyn Bay and therefore the local service had already been lost. Concern was expressed that there was currently little visible evidence of PCSO's in the village.

As the decision to close the station had already been made, members suggested that North Wales Police contact the local Church with a view to using the Church Hall to hold surgeries, possibly to coincide with market days, i.e. Saturday and Thursday between 9 a.m. and 2. p.m. In addition a request was made for more PCSO presence in the village.

Gethin Jones agreed to publicise the emergency/non urgent numbers of 999 and 101. He would also review the frequency of PCSO visits to the village.

## **5. Cofnodion Cyfarfod/Minutes of meeting 19.12.12**

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir. / *The minutes were accepted as correct.* Cynnig/Eilio GB/WR Prop/Sec.

## **6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes 19.12.12**

### **1. Les Parc Mwd Lease**

'Roedd y cyfreithiwr sydd yn gweithredu ar ran Grwp Cymunedol y Fali wedi gwneud sylwadau ar y les. 'Roedd y clerc eisioes wedi ei trafod gyda chyfreithiwr y Cyngor Cymuned a rhoddwyd cyfarwyddyd i'r aelodau:

- a) 'Roedd GCF yn ceisio cael hawl tramwy dros dir y Cyngor, tir y pafiliwn ar droed ac mewn cerbydau, er eu bod yn nodi byddai y mwyafrif o fynediad i gerbydau ar gyfer gosod offer a chynnal a chadw.

'Roedd penderfyniad eisioes wedi ei wneud fod mynediad uniongyrchol i'r safle drwy'r giat ar y briffordd gyhoeddus felly nid oedd angen hawl tramwy dros dir y Cyngor. Cynnig/Eil HW/GB.

- b) 'Roedd GCF yn ceisio cael opsiwn i adnewyddu'r les am gyfnod a bum mlynedd.

Cytunnwyd, gyda Cyngor Cymuned y Fali yn gwarchod yr hawl i godi'r rhent dim mwy na cyfradd chwyddiant yn ystod cyfnod y les presennol. Cynnig/Eil HW/BR

- c) 'Roedd GFC yn ceisio cael caniatad ysgifennedig y Cyngor i osod offer chwarae.

Clerc i ysgrifennu yn rhoi caniatad. Cynnig/Eil HW/BR

- d) Mae bwriad i osod cyfamod fod asesiad risg yn cael ei wneud o ardal y pwll/morfa. Nodwyd GCF y byddent yn datgelu'r cynnwys yr adroddiad os oedd angen ond 'roeddynt o'r farn mae risg i'r Tenant oedd hyn ac felly nid oeddynt yn teimlo y dylir rhoi cyfamod yn y les.

Cytunnwyd y dylai'r cyfamod yma gael ei gadw. Prop/Sec GB/MSW.

- e) 'Roedd GFC yn ceisio cael caniatad ysgifennedig y Cyngor i roi cais i mewn am ganiatad cynllunio ar gyfer y datblygiad adloniant.

Clerc i ysgrifennu yn rhoi caniatad. Cynnig/Eil HW/BR

- f) Nid yw GCF eisiau cyfamad yn y les yn ei gwahardd rhag creu difrod i goed, llwyni, planhigion neu chloddiau. Yn ychwanegol nid oeddynt yn dymuno cyfamad yn eu cyfyngu rhag defnyddio offer goleuo ar y tir.

Cytunnwyd y dylai'r cyfamad yn ei gwahardd rhag creu difrod i goed, llwyni, planhigion neu chloddiau gael ei gadw. Cynnig/Eil HW/MSW.

Golau – cyfamad canlynnol i'w fewnosod

Ni fydd Grwp Cymunedol y Fali (y Tenant) i ddefnyddio unrhuw fath o offer goleuo ar y tir heb dderbyd caniatad ysgifennedig y Cyngor o flaen llaw. Cynnig/Eil BR/GB

The solicitors acting on behalf of the Valley Community Group had raised some queries in relation to the proposed lease. The clerk had discussed the queries with the Council's solicitor and advised the members accordingly:-

- a) The VCG were requesting a right of way over the Council's land known as the pavilion land both on foot and for vehicles although they point out vehicular access will be mostly for the installation of equipment and maintenance.

It had previously been agreed that access directly onto the site would be via the gate on the public highway therefore no right of way was required. Prop/Sec HW/GB

- b) The VCG would like an option to renew the lease for a period of five years.

Agreed but Valley Community Council reserve the right to increase the rent no more than in line with inflation over the period of the current lease. Prop/Sec HW/BR.

- c) VCG request the Council's written consent to erect recreational equipment.

Clerc to write to give consent. Prop/Sec HW/BR.

- d) There is a proposed covenant to obtain a risk assessment for the marsh/pond area. VCG indicated that this report will be disclosed should it be required but they deem the risk as a risk for the tenant and they therefore do not consider that the clause should be inserted in the lease.

Agreed that this clause should remain. Prop/Sec GB/MSW.

- e) VCG request the written consent of the Council to apply for planning permission for the recreational development.

Clerc to write to give consent. Prop/Sec HW/BR

- f) VCG do not wish clauses in the lease preventing them from damaging any trees, shrubs, plants or hedges and also would not wish a covenant restricting lighting equipment on the land.

Covenant preventing the VCG from damaging any trees, shrubs, plants or hedges to be retained. Prop/Sec HW/MSW.

Lighting – following clause to be inserted.

The Valley Community Group (the Tenant) will not use on the premises any form of lighting equipment without the Council's prior written consent. Prop/Sec BBR/GB

## **2. Datblygiad Land and Lakes Development**

Bydd cynrhychiolwyr o Adran Gynllunio Cyngor Sir Ynys Mon yn rhoi cyflwyniad ar y datblygiad yn y cyfarfod nesaf. Clerc i ofyn am gopi papur o'r cais cynllunio. Yn y cyfamser clerch i gadarnau yn ysgrifennedig i'r Ccyngor Sir fod aelodau yn gwrthwynebu'r cais ar hyn o bryn yn unol a'r llythyr a yrrwyd eisioes. Cynnig/Eil MSW/HW./ Representatives from Isle of Anglesey County Council's Planning Department to make a presentation at the next meeting. Paper copy of the proposed development plans to be requested but in the meantime, write to IOACC to advise that the Community Council currently object to the development as per the letter previously sent. Prop/Sec MSW/HW

**3. Les Clwb Hyn/Senior Club Lease  
Cyfrif wedi ei setlo/Account settled.**

**7. Materior Plwyfol/Parochial Matters**

**1. Bocsys Adar/Bird Boxes (GB)**

Gofynnodd Cyng Browne am ganiatad ar ran Sgowtiaid y Fali i osod bocsys adar ym Mharc Mwd. Cytunnwyd. Cynnig/Eil HW/MSW. /Councillor Browne requested permission for the Valley Scouts to place bird boxes in Parc Mwd. Agreed. Prop/Sec HW/MSW

**2. Mynediad i'r bels ar Lon Gorad ac ar y B4545 yn Llanynghenedl./Access to bales on the Gorad Road and on the B4545 to Llanynghenedl.**

Mynnegir pryder ynglyn a chyflwr y briffordd ger mynedfa i'r bels ar Lon Gorad a cyflwynnir tystiolaeth ffotograffaid. 'Roedd sefyllfa debyg ar y B4545 yn Llanynghenedl. Clerc i ysgrifennu at Adran Briffyrdd y Cyngor Sir i ofyn am eu cefnogaeth i ddatrys y sefyllfa. Cynnig/Eil MSW/HW./Concern was expressed regarding the condition of the roadway accessing the bales on the top of Gorad Road and photographic evidence was supplied. The position is the same on the B4545 to Llanynghenedl. Clerk to write to the Highways Department, Isle of Anglesey County Council to seek their support to resolve the situation. Prop/Sec MSW/HW.

**7. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref / Town and Country Planning**

**1. Ceisiadau/Applications**

**Cais Rhif/AppNo. 49C255F/TPO Cais ar gyfer gwaith i goeden Norway Maple wedi ei diogelu dan OrchymunDiogelu Coed yn/Application for works to a Norway Maple tree protected by a Tree Preservation Order at 5 Lllys Coedlys, London Road, Valley.**

**Gwybodaeth ychwanegol/Amended information - Outline drainage Scheme**

Cynnigwyd fod y gwaith yn cael ei wneud i gyd-ymffurfio a'r cynnigion a wnaethpwyd yn yr adroddiad and dylai fod amod yn cael ei osod na fydd ychwaneg o ymyrraeth gyda system gwraidd y goeden. Cynnig/Eil GB/SR. /It was proposed that the required work be undertaken as per the recommendations of the report, however, this should be on condition that there was to be no further interference to the root system. Prop/Sec GB/SR.

**2. Datblygiad Land and Lakes Development**

**Cyfeirir at 6.2 uwchben/Refer to 6.2 above.**

**3. Cais Rhif/App No. 49C221E/TR Cais am ganiatad cynllunio llawn ar gyfer diwygio'r bwriad am westy a llety gwyliau hunan arlwy ynyhyd a newid defnydd yr adeiladau allanol i 4 uned preswyl a diddymu amodau tirlunio presennol ar dri ganiatad cynllunio ar gyfer creu tri bwnd yn/Application for full planning permission for amended proposals for hotel and self catering holiday accommodation together with conversion of outbuildings into 4 residential units and deletion of existing landscaping conditions on**

**three planning consents for the construction of bunds at Cleifiog Uchaf, Off Spencer Road, Valley.**

I'w drafod mewn cyfarfod arbennig 23.01.13./To be discussed at special meeting 23.01.13

**4. Penderfyniadau/Decisions**

**Dim wedi ei derbyn**

**8. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn / Anglesey County Council Correspondence.**

**9. Materion Ariannol / Financial Matters**

**1. Holiadur ynglyn a meusydd chwarae/Questionnaire re playing fields**

**Wedi ei gwblhau/Completed.**

**Manylion Cyfrifon / Details of Accounts – Bank Balances**

**26/12/12**

Treasurer - £11545.01, Business Manager – £5574.43, Ynys Wen - £6870.37, Capital - £2065.12  
(Treasurer account - un-presented cheques £878.59 actual funds available - £10666.42)

Banked in Treasurer Account £150 Senior Men Football Club Lease

Derbynwyd fel yn gywir yn unol a phwynt 3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali. /  
*Accepted as correct in accordance with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations. (Cynnig/Eil CT/BR Prop/Sec)*

**10. Taliadau i'w gwneud Ionawr/ Payments to be made January**

Cyflog y clerk/Clerk's Salary December	£258.52
Valley School rent of room	£50
IOACC – Playing field	£62
T Jones repairs to pavilion	£340
H Hughes Cyfieuthu Tachwedd	£60

Taliadau wedi ei cymeradwyo yn unol a phwynt 5.3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali.. /  
*Payments approved in accordance with Section 5.3 of the Valley Community Council Financial Regulations. (Cynnig/Eilio GP/CT Prop/Sec.)*

**Archebion Cyngorhau Cymuned 2013/14 Community Council Precepts 2013/14**

**Wedi ei gymeradwyo eisioes gyda'r ffurflen gais wedi ei chwblhau./Approved previously and request form completed**

Cynnig/Eil WR/SR Prop/Sec

**11. Y Cynulliad / The Assembly**

**1. Newyddlen Ieuan Wyn Jones Newsletter Nodwyd/Noted**

**12. Gohebiaeth Amrywiol / Miscellaneous Correspondence**

**1. Y Llais/The Voice Nodwyd/Noted**

**2. Unllais Proseict Gwreiddiau Cyfion/Strong Roots Project Nodwyd/Noted**

3. **Air Volution Energy Adeiladu 2 twrbein wynt Fferm Ysgellog/Construction of 2 wind turbines Ysgellog Farm. Nodwyd/Noted**
4. **Unllais Cymru Polisi Cynllunio/One Voice Wales Planning Policy Nodwyd/Noted**
5. **Heddlu Gogledd Cymru Diogelu eich beic/North Wales Police Protect your bicycle Nodwyd/Noted**
6. **Garddwestau Palas Buckingham/Buckingham Palace Garden Parties Nodwyd/Noted**
7. **Unllais Cymru Hyfforddiant/One Voice Wales Training.Nodwyd/Noted**

13. **Calendr/Calendar**

14. **Dyddiad Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting 20.02.13 7.00 y.h. /p.m.**